Cyfarfod Blynyddol Y Bartneriaeth Awyr Agored
Cofnodion

Dyddiad y Cyfarfod: *Medi* 15fed 2018-5.00-5.30pm, Plas y Brenin

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Paul Airey (Cadeirydd & Chyfarwyddwr Gweithrediadau), Joanne Owen (Cyfarwyddwr Cynhwysiad), Joan Edwards (Cyfarwyddwr Cyllid), Stuart Wallace (Aelod Cyfetholedig)
Aelodau Gweithredol:	Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy
Tîm Staff	Tracey Evans (Ysgrifennydd y Cwmni), Mark Jones, Simon Jones, Roger Pierce, Ceri Jones, Elin Humphreys, Lowri Hurdman, Bethan Davies.
Aelodau Cysylltiol	64 aelod yn cynrychioli 16 o glybiau a grwpiau gweithgareddau awyr agored

1. ***Croeso***
   Bu i PA estyn croeso i bawb i'r cyfarfod a dywedodd fod llawer yn bresennol oherwydd bu i'r bartneriaeth benderfynu cynnal eu Cyfarfod Blynyddol ar ddydd Sadwrn yn ystod yr Ŵyl Awyr Agored blynyddol. Dosbarthwyd copïau o'r holl adroddiadau a phapurau perthnasol cyn y cyfarfod.

2. ***Ymddiheuriadau***
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Amanda Davies (Cyfarwyddwr Datblygiadau), Jim Jones (Co-opted member), Paul Frost (Aelod Cyfetholedig), Leah Watkins (Aelod Cyfetholedig), Owain Williams, BIPBC, Cymdeithas Eryri, Prifysgol Bangor.

3. ***Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf***
   Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

4. ***Materion yn codi***
   Ni fu unrhyw faterion yn codi.

5. ***Adroddiad y Cadeirydd***
   5.1 Bu i PA ddarllen yr adroddiad ysgrifenedig ac amlygu ychydig o'r prif lwyddiannau yn ystod y flwyddyn. Bu iddo adnabod meysydd gwaith blaenoriaethol ar gyfer y flwyddyn ganlynol (adroddiad y Cadeirydd wedi ei atodi). Bu i PA ddiolch i'r partneriaid a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus. Yn ogystal, bu iddo ddiolch i TE a'r holl staff am eu gwaith rhagorol eleni.
   5.2 **Penderfyniad:** derbyn adroddiad y Cadeirydd.

6. ***Newidiadau i'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu***
   6.1 Dosbarthwyd adroddiad cyn y Cyfarfod Blynyddol yn amlygu'r newidiadau arfaethedig ynghyd â diben y newidiadau.
   6.2 **PENDERFYNIAD:** Cafodd ei gytuno'n unfrydol y dylid derbyn y newidiadau arfaethedig i'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu.

7. Penodi Cyfarwyddwyr

7.1 Adroddodd PA bod 4 cais wedi'i derbyn ar gyfer Cyfarwyddwr yn dilyn yr hwb yn Rhagfyr 2017. Cyfetholodd y Bwrdd bedwar aelod newydd i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2018 gan gynnwys Jim Jones Rheolwr Twristiaeth Gogledd Cymru, Leah Watkins, arbenigwraig mewn AD, Stuart Wallace o'r RNLI a chefndir cyfreithiol a Paul Frost, cyn is-gyfarwyddwr Hamdden i Gyngor Conwy a chyn-gadeirydd Y Bartneriaeth Awyr Agored.

7.2 **PENDERFYNIAD:** Cafodd ei gytuno'n unfrydol y dylid derbyn penodiadau'r pedwar ymgeisydd fel Cyfarwyddwyr y Cwmni

8. Adroddiad Ariannol a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth yr 31ain 2018.

8.1 Adroddodd JE reported bu i gyfanswm yr incwm ostwng ychydig o 426,422 i £413,132, gostyngiad o £13,290 ers y llynedd.

8.2 Bu i'r gwariant gynyddu o £337,022 i £355,352, sef cynnydd o £18,330 o gymharu â'r llynedd.

8.3 Bu'r adnoddau wedi eu gwario o'r gronfa gyfyngedig yn £343,102, gyda'r cyfansymiau uchaf o £143,528 o Gronfa'r Loteri Fawr, £30,000 o Gwynt y Môr and £25,000 o Gyfoeth Naturiol Cymru

8.4 Cafodd £130,533 ei wario ar weithgareddau a sesiynau hyfforddi,

8.5 Cafodd £148,197 ei wario ar gyflogau staff.

8.6 Bu i gostau marchnata gynyddu ychydig o £13,332 i £13,689

8.7 Bu i gyfanswm y cyllid anghyfyngedig gynyddu i £301,092 o £250,707 y llynedd.

8.8 Roedd balans y cyfrif banc ar 31.03.18 yn £384,1048.8

8.9 Bu i PA ddiolch i JE am ei holl gefnogaeth yn ystod y 12 mis diwethaf.

8.10 Penderfyniad: Cafodd cyfrifon 2017-18 eu cymeradwyo.

9. Enwebiadau ar gyfer ymaelodi gyda'r Bwrdd Gwaith

9.1 Dywedodd TE na fu enwebiadau ar gyfer aelodau ychwanegol i'r Bwrdd Gwaith.

10. Unrhyw fater arall

Ni fu unrhyw fater arall

11. Dyddiad Cyfarfod nesaf – Medi 2019 (dyddiad i'w gadarnhau) fel rhan o'r Ŵyl Awyr Agored flynyddol.